

Taiwan 17 Gorffennaf 2022

Is Bwyllgor Cymru Dydd Gweddi's Byd
(World Day of Prayer Wales Sub-Committee)

Annwyl Gwen a swyddogion/cyfeillion WDP

Yn gyntaf mawr ddiolch i chwi am gadw mewn cyswllt ynglyn â digwyddiadau Dydd Gweddi'r Byd. Mae amser yn hedfan rhywsut ond carwn ddweud unwaith eto hyfryd iawn oedd cael sgwrs dros y we i gyfarfod chi am tro cyntaf (wel o leiaf i weld eich gwyneb!) ac i gael "aduniad" megis gyda "hen" gyfeillion o fy nyddiau yn ganolfan ieuencid Coleg y Bala.

Fel bu mi grybwyll mae Taiwan yn cymryd rhan yn WDP ers blynyddoedd lawer ac mae yn rhan bwysig iawn o waith chwiorydd Eglwys Bresbyteraidd Taiwan (Presbyterian Church in Taiwan) sydd digwydd bod yr enwad brotestanaidd hynaf a mwyaf yn y wlad hon. Does dim angen imi egluro y perthynas arbennig rhyngom – braint ydi cael gwasiaenthu Iesu Grist mewn partneriaith efo EBT. Gyda llaw mae gan United Reformed Church (URC) berthynas arbennig iawn efo EBT(PCT) hefyd achos gwreiddiau hanesyddol cenhadol 1865!!

Yn anffodus ni chefais gyfle i ymuno a oedfa WDP yma oherwydd gofynion y swyddfa. Ond cefais gyfle i ranu ychydig am Gymru mewn sawl sgwrs gyda fy nhgyd weithiwyd sydd a rhan blaenllaw ym Mhwyllgor WDP-Taiwan sef Parch. LIAN Siong-Bi (Programme Secretary Women's Ministry Committee) a Mrs. Nancy Lin (Programme Secretary for Ecumenical Relations). Yn wir 'roedd Taiwan yn gobeithio y byddai Nancy yn cael ei ethol ar y pwyllgor rhyngwladol fel un o gynrychiolwyr Asia ond rhaid oedd tynnu yn ôl funud olaf oherwydd cyflwr lechyd difrifol ac anisgwyl iawn. Cafodd ei tharo yn wael efo "arotic dissection" canol mis Mai – 'rydym yn diolch i'r Arglwydd fe ddaeth drwy y llaw driniaeth ac mae hi bellach adref ond ar seibiant hir – diolch o galon i chi am weddio am Nancy wrth iddi barhau i gryfhau.

Eleni wrth gwrs, gwledydd Gogledd Iwerddon, LLoegr ac Cymru annwyl oedd yn cael sylw ac hyfryd o beth blwyddyn nesa mai Taiwan sydd yn cael sylw (am y tro cyntaf). Gwych iawn fod dau ran o'r byd sydd yn bwysig i mi yn dod gefn yn gefn megis!!

Mi wn ers dyddiau yn Y Bala mor werthfawr ydi WDP a'r cyfle i weddio yn rhyngwladol ond hefyd mae WDPIC yn ddolen bwysig addysg – fel bod ni yn dysygu am wledydd, pobl ac egwlysi eraill a dod i ddeall eu trysorau, cryfder, anghenion a phoenau. Carwn rannu dau siampl bach o hyn ddigwyddodd i mi eleni! Mae gweindiog o PC(USA) yma fel fi yn gwasanaethu mewn partneriaith a EBT/PCT. Yn aml mae John yn pregethu, hyfforddi ac ati mewn eglwysi Indigenous hyd a lled y wlad. Wedi bod mewn capel bach gwledig iawn anfonodd e-bost i mi – wedi gwrrioni gan ddweud ei fod wedi gweld y Ddraig Goch ar wal y Capel!! Ac bu yn sgwrsio efo'r blaenor am y peth (a son am fy nghyswllt wrth gwrs!) a cael ar ddeall adnoddau WDP oedd ar y wal!! Yn aml iawn tydi pobl yma ddim yn deall sefyllfa U.K. Tydio ddim yn helpu bod yr enw sydd wedi cael ei ddefnyddio am UK wedi i gyfieithu i "England" - ac i ddeud y gwir 'rwyf i yn aml yn gwneud darlun brysiog o fap i egluro y gwahanol rhanbathau! 'Roedd rhai hefyd yn gofyn pam fod WDP Alban ar wahan (nid fy mod yn deall hyn chwaith!!!). Fodd bynnag, tro hwn 'roedd WDP wedi creu cyfle gwych nid yn unig i weddio ond i ddysgu am y gwahaniaeth a'r trysorau sydd i'w gael ym Mhrydain ac am ein partneriaith unigryw Cristnogol fel un teulu Duw. Gwnaf ategu y lluniau i chi weld!!

Stori arall - ychydig wythnosau wedyn daeth criw o un o'n Henaduriethiau (digwydd bod pobl Inidgenous eto) i ymweld â swyddfa Gymanfa Gyffredinol ac yn ôl y drefn cael eu cyflwyno i wahanol adrannau a gweithiwyr. Fel 'roedd ein Is-ysgrifennydd cyffredinol yn dweud pwy oeddwn i dyma fo yn ychwanegu gyda llaw mae Carys yn siarad Cymareg ac nid o Lloegr mae hi ond Cymru – ar union daeth llais o gefn y criw – un o'r chwirydd yn ymateb ei bod y gwybod am Gymru oherwydd Dydd Gweddî'r Byd 'roeddynt wedi bod yn astudio a gweddio amdanynt eleni!! Dolen gyswllt bach hwyrach ond yn enghraifft o ffrwyth Dydd Gweddî'r Byd yn dod a ni at ein gilydd.

Diolch i chi am roi gwybod i mi am y 'Link Day' a gynhelir yn fuan pan fyddwch chi'n canolbwyntio ar gyfer y flwyddyn nesaf ac yn dysgu mwy am y wlad arbennig iawn hon yn Taiwan a'i phobl. Roeddwn yn falch iawn o glywed bod Llysgenhadaeth Taiwan yn anfon dau berson i fynychu a rhannu gyda'r rhai oedd yn bresennol am eu gwlad. Rwy'n siŵr y byddant yn rhoi gwybodaeth werthfawr ichi am y sefyllfa bresennol yma a pholisïau ein Llywydd, Dr Tsai Ing-Wen a'i llywodraeth.

Roeddwn i'n meddwl, pa mor addas yw'r flwyddyn y mae WDPIC yn canolbwyntio ar Taiwan, bod gennym fenyw yn Swyddfa'r Arlywydd ac rwy'n ddigywilydd o ragfarn ac yn falch o ddweud bod yr Arlywydd Tsai yn arwain y wlad gyda rhagoriaeth ac uniondeb, gan gynnal gwerthoedd democratiaeth, cyfiawnder a heddwch. Gyda llaw, derbyniodd Dr Tsai ei PhD o Brifysgol Llundain - The London School of Economics and Political Science. Dolen fach arall.

Fel y gwyddoch efallai, nid yw Taiwan yn wlad Gristnogol ond yn bennaf yn Taoist, Bwdhaidd, crefydd werin yn ogystal ag eraill ac mae'n rhaid i mi ddweud ei fod yn parhau i greu argraff a darostyngiad i mi o weld y parch rhwng y gwahanol ffydd / grwpiau crefyddol sy'n byw ochr yn ochr yn gytcord yn y wlad hon; heb anghofio'r grwpiau amlddiwylliannol cyfoethog gan gynnwys yr ieithoedd amrywiol a niferus.

Wn i ddim sut y lluniwyd y thema gan grŵp ysgrifennu WDP Taiwan ond mae geiriau Paul yn addas ar gyfer tyst lleiafrif Cristnogol ymroddedig yn y wlad hon ers ychydig dros ganrif a hanner "Am hynny, o'r pryd y clywais am y ffydd sydd gennych yn yr Arglwydd Iesu, ac am eich cariad tuag at yr holl saint, nid wyf yn peidio â diolch amdanoch, gan eich galw i gof yn fy ngweddïau." Nifer fach ond nid oes amheuaeth yr effaith y mae Cristnigion wedi'i creu yma.

I ddod yn ôl at ein cysylltiadau eglwysig fel yr wyf eisoes wedi'i rannu â chi - hoffwn ailadrodd, os hoffech chi neu aelodau'ch pwyllgor gysylltu â WDP Taiwan yn uniongyrchol trwy fy nghydweithwyr yma yn PCT, mae croeso i chi wneud hynny. Byddent yn falch iawn o glywed gennych.

Gwell i mi dawelu – hwn wedi mynd yn llith!!

Boed bendith Duw ar waith y Pwyllgor WDP wrth i chi gyfarfod a pharatoi ar gyfer y gwasanaeth y flwyddyn nesaf.

Cofion annwylaf

Carys

Han Le-Si (fy enw Taiwaneag!!)

--

Carys Humphreys (Han Le-Si 韓麗絲)
Administrative Assistant
PCT Office of the General Secretary

Presbyterian Church in Taiwan (PCT)
3, Lane 269, Roosevelt Road Sec. 3, Taipei 106613 TAIWAN
台灣基督長老教會總會
台灣 106613 台北市羅斯福路三段 269 巷 3 號
Tel: + (886) 2-2362-5282 Ext. 365
Fax: + (886) 2-2362-8096
E-mail:
Carys Humphreys < carys@mail.pct.org.tw >
PCT General Secretary < gs@mail.pct.org.tw >
PCT Ecumenical Relations < ecu@mail.pct.org.tw >
<http://www.pct.org.tw>

